

Meithrin Ymddiriedaeth yn y Byd Chwaraeon yng Nghymru

Seamus Gillen, Cyfarwyddwr ValueAlpha, sy'n rhoi ei farn ar pam bod croesawu llywodraethu da'n gam cyntaf pwysig tuag at sicrhau enw da eich sefydliad a chefnogaeth barhaus eich aelodau a'ch rhanddeiliaid eraill.

Mae chwaraeon yn ein synnu ni'n dragwyddol. Yn yr ystyr positif, wrth i ni ddal i adlewyrchu ar lwyddiant y timau Olympaidd a Pharalympaidd, ac yn yr ystyr negatif, wrth i ddigwyddiadau fel hanes Sam Allardyce yn ddiweddar ein gadael ni'n isel ein hysbryd ac yn syfrdan.

O bersbectif llywodraethu, nid yw cyrff chwaraeon yn wahanol i unrhyw sefydliadau eraill yn y byd corfforaethol, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Ym mhob achos, mae systemau llywodraethu'n gyfrwng i bob sefydliad gael ei redeg yn dda a chyrraedd nodau sefydliadol – neu, yn achlysurol, fethu.

Ond, mewn ffordd, mae chwaraeon yn wahanol. Mae'n rhan ganolog o'n bywyd cenedlaethol ni, o bersbectif gwylwyr, cyfranogwyr, gwirfoddolwyr neu berfformwyr elitaidd. Hyd yn oed o ran polisi cyhoeddus ehangach, mae chwaraeon yn rhan bwysig o'n bywydau ni fel buddiolwyr – yn enwedig drwy wella iechyd, gwella ffyrdd o fyw, a chostau meddygol is i'r GIG. Gan fod chwaraeon yn cyffwrdd â'n bywydau ni mor aml, ac mewn ffordd mor ystyrlon, mae'r ffordd mae'r byd yma'n cael ei redeg wir yn bwysig.

Mae profiad a gwybodaeth yn dweud wrthym pa mor aml mae sefydliadau chwaraeon a chlybiau chwaraeon cymunedol lleol yn dibynnu ar gyfraniadau gwirfoddolwyr ac, yn groes i'r ddelwedd a fynegir drwy ddarlledu rhai o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd yn y DU, nid yw'n hawdd dod o hyd i arian. Mae llawer o wahanol ffactorau amgylcheddol yn gallu cael effaith ar chwaraeon, gyda materion fel cyffuriau a threfnu canlyniadau gemau'n cwestiynu didwylledd chwaraeon yn aml.

Mae didwylledd yn creu ymddiriedaeth ac mae ymddiriedaeth yn allweddol, yn enwedig mewn oes o atebolrwydd, a gofynion rhanddeiliaid am dryloywder - ffenomenon a sbardunir gan gyfryngau cymdeithasol a'r ffaith nad oes lle i guddio nawr am gamymddwyn. Bydd corff rheoli chwaraeon effeithiol sy'n perfformio ar lefel uchel yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ac yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod modd i rhanddeiliaid ymddiried ynddo. Os yw'r rhanddeiliaid rheiny'n gyllidwyr, bydd corff rheoli uchel ei barch yn fwy tebygol o allu dadlau ei achos dros barhau â chyllid, neu leihau llai arno o leiaf. Mae'r rhain yn gyfrifoldebau mawr ac yn tynnu sylw at yr angen am fyrdau mwy a mwy proffesiynol.



Roeddwn i'n teimlo bod rhaid i mi edrych eto ar y materion hyn pan ddywedodd Prif Weithredwr UK Sport, Liz Nicholl, ar ôl y Gemau Olympaidd (gan siarad am lwyddiant Team GB): "*Mae'n dangos bod y system yn gweithio yma yn y DU ac eto mae'r rhai ohonom ni sy'n ymwneud â'r maes yma'n gwybod bod llawer iawn mwy y gellir ei wella...*". Ychwanegodd Cyfarwyddwr Perfformiad UK Sport, Simon Timpson, nad oedd y llwyddiant yn "*digwydd drwy siawns. Llwyddiant drwy gynllunio yw hwn.*"

Ond ydyn ni'n gallu dweud bod y 'system yn gweithio' ar draws y byd chwaraeon? Os mai 'llwyddiant drwy gynllunio' yw hwn, ydi hyn yn golygu ein bod yn dal y gyfrinach i gyflawni canlyniadau sefydliadol?

A fyddem yn teimlo mor gyfforddus a hapus wrth i ni edrych ar y diwylliant, y gwerthoedd a'r ymddygiad sydd wedi arwain at storm Allardyce, a'r sgil-effeithiau sy'n bygwth achosi rhagor o ddifrod? Gydag Alan Shearer yn disgrifio Lloegr fel "cyff gwawd y byd pêl droed", sut byddem yn teimlo pe bai'r un peth yn digwydd i Chris Coleman, yn enwedig ar ôl ymgyrch wych Cymru yn yr Ewros?

Efallai ein bod yn diystyru hyn i gyd fel 'dim byd ond pres mewn pêl droed', gan feddwl, neu wybod, bod y rhai sy'n troseddu goruwch atebolrwydd. (Er hynny, yn ddiddorol, dyma oedd yr agwedd ym mhencadlys FIFA nes i orfodwyr y gyfraith yn UDA feddwl yn wahanol). Neu a ydyn ni'n cydnabod bod posib i lawer o chwaraeon ddymchwel i'r llawr, am nad ydyn nhw wedi cael trefn ar eu llywodraethu? Bob tro mae camp yn methu, mae ychydig bach mwy o ymddiriedaeth yn cael ei dinistrio, ac mae'r haint yn lledu. Yr unig ddatrysiad yw gweithio ar adfer yr ymddiriedaeth honno drwy adfer y sefydliad sydd wedi methu, a dal ati i feithrin ymddiriedaeth mewn chwaraeon eraill sydd heb fethu.

Os ydyn ni am gynnig modelau rôl priodol i'n plant, a phawb sy'n dod i gysylltiad â chwaraeon yn eu bywydau bob dydd, fedrwn ni fforddio gwneud unrhyw beth ar wahân i weithio i sicrhau llywodraethu o ansawdd uchel, i gyflawni'r 'canlyniadau iawn' i randdeiliaid? Nid moesoldeb (y safonau rydyn ni'n eu gosod i ni ein hunain) yw'r pwnc yn y fan yma. Mae hyn yn ymwneud â'i gwneud yr un mor hawdd i fwrdd wneud y peth iawn â gwneud y peth anghywir.

Mae her ddiddorol yn codi yng nghyd-destun perfformiad elitaidd. Y cwestiwn rydw i'n ei ofyn i mi fy hun ydi a yw'n bosib anelu am ragoriaeth ar y trac neu'r cae, ar y maes neu'r cwrt, neu yn y pwll, heb geisio cyflawni'r un lefel o ragoriaeth yn yr ystafell fwrdd? Ydi llywodraethu da'n sail hanfodol i lwyddiant chwaraeon cynaliadwy, ynteu does dim ots efallai?

Rydwn i'n glir yn fy meddwl fy hun bod cysylltiad rhwng y ddau. Mae'n anghyson i'r meddwl sy'n rheoli camp (y bwrdd) fynnu neu annog perfformiad elitaidd heb fod yn fodlon dangos tystiolaeth o hynny yn ei weithrediadau ei hun. Os yw camp yn cael ei rhedeg yn wael, efallai



y bydd yr athletwyr yn gallu pellhau ac ynysu eu hunain oddi wrth hynny, ond mae i hynny ganlyniadau sylweddol ar gyfer y llwybrau o lawr gwlad i ennill medalau, ac yn ôl eto.

Felly, fy nghwestiwn i i mi fy hun, ac i ddarllenwyr y blog yma, ydi fedrwn ni fforddio tynnu ein troed oddi ar bedal y diwygiad llywodraethu gyda chwaraeon yn parhau'n rhan ganolog o'n bywydau? Fedrwn ni ddal ati i gredu bod posib gwahanu perfformiad chwaraeon oddi wrth berfformiad llywodraethu? Ydyn ni'n gweld unrhyw opsiwn arall yn lle meithrin gallu llywodraethu fel cyfrwng i greu cynaliadwyedd, cadernid, lefelau cynyddol o gyfranogiad a pherthynas glir a chefnogol rhwng chwaraeon ar lawr gwlad a chystadlaethau elitaidd llwyddiannus?

Gan fod chwaraeon yn cyfrif gymaint, mae'n rhaid i ni ystyried a ydyn ni'n mynd yn ddigon pell yn ddigon cyflym o ran llywodraethu.

